Cofnodion Cyfarfod o CYNGOR
a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion ac o bell
Ddydd Iau, 20fed Hydref, 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ifan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Steve Davies, Amanda Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(10.50am - 12.50pm)

Gweithdrefn
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 Cod Ymddygiad ar gyfer y Cynghorydd Ann Bowen Morgan
Anerchodd Elin Prysor, Swyddog Monitro, y Cyngor ynglŷn â'r gofyniad statudol i bob Aelod wneud Datganiad o Dderbyn ac ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, gan gadarnhau bod y Cynghorydd Ann Bowen Morgan, sy'n gwneud y Datganiad statudol o Dderbyn y Swydd heddiw, wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr ar God Ymddygiad y Cyngor ddydd Llun Hydref 10fed 2022.

Mae hyn er mwyn i Aelodau gyflawni eu swyddogaethau gyda dealltwriaeth o Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus, eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan y cod, a hefyd y canlyniadau am fethu â gwneud hynny.

2 Datganiad o Dderbyn y Swydd ac Ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad
Derbyniodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan ar lafar y Datganiad o Dderbyn y Swydd a'r ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a gafodd ei lofnodi a'i gydlofnodi gan y Swyddog Priodol.

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Ifan Davies, ac Arweinwyr y Grwpiau y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Lloyd ac Elizabeth Evans eu croeso iddi.

3 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Endaf Edwards a Sian Maehrlein am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

Ymddiheurodd James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol am ei anallu i fynychu'r cyfarfod.

4 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Datganodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Davies a Rhodri Evans fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chofnod 9 isod ac aethant allan o'r cyfarfod yn ystod y trafodaethau.

5 Materion Personol

a) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ifan Davies Geredigion, y Cyngor a'i Swyddogion am eu holl waith caled yn sicrhau bod yr Eisteddfod yn llwyddiant ysgubol, gan nodi'r ganmoliaeth enfawr a gafwyd i Bentref Ceredigion a'r 200 a rhagor o weithgareddau a drefnwyd yn ystod yr wythnos. Talodd deyrnged i Gyngor Tref Tregaron a phawb a fu'n ymwneud ag addurno eu trefi a'u pentrefi i groesawu pawb i Geredigion. Ategwyd ei eiriau gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies ac Arweinwyr y Grwpiau y Cynghorwyr Gareth Lloyd ac Elizabeth Evans;

b) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ifan Davies Rali Bae Ceredigion, a oedd wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Ategwyd hyn gan y Cynghorydd Bryan Davies a bwysleisiodd bwysigrwydd digwyddiadau o'r fath i ddatblygiad economaidd Ceredigion;

c) Croesawodd y Cynghorydd Bryan Davies y Cynghorydd Mark Strong yn ôl i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor yn dilyn cyfnod o absenoldeb salwch;

d) Llongyfarchodd y Cynghorydd Marc Davies Mrs Elizabeth Edwards o Giliau Aeron ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed;

e) Llongyfarchodd y Cynghorydd Marc Davies Josh Tarling ar ennill Medal Aur ym Mhencampwriaeth Treial Amser y Byd dan 21 a gynhaliwyd yn Awstralia ar 21 Medi eleni;

f) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ceris Jones Gerwyn, Glenys, Andrew, Ann a Gwenan Owen o Ddihewyd am ennill y safle cyntaf drwy Brydain gyda 'First Milk' am ansawdd eu llaeth;

g) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ceris Jones Anni Grug Lewis-Hughes ar ennill gradd rhagoriaeth mewn arholiad tapddawnsio yn ddiweddar;

h) Estynnwyd llongyfarchiadau'r Cynghorydd Euros Davies, a ddarllenwyd gan y Cynghorydd Ifan Davies, i Esyllt Ellis-Griffiths ar gael ei dewis yn Llysgennad Sioe Frenhinol Cymru yn 2024, gan nodi bod cinio i lansio Sioe 2024 a noddir gan Geredigion wedi'i gynnal yn ddiweddar;

i) Llongyfarchodd y Cynghorydd Gareth Davies Tomi Morgan a ddaeth ymlaen fel eilydd yn 65 oed yn ystod ail hanner gêm bêl-droed gan sgorio tair gôl o fewn 11 munud i CPD Penparcau;

j) Llongyfarchodd y Cynghorydd Rhodri Evans Llanddewi Brefi am ennill y pentref addurnedig gorau ar gyfer yr Eisteddfod;

k) Llongyfarchodd y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans Glwb Ffermwyr Ifanc Llangwyryfon ar ennill y Diwrnod Maes am yr 8fed tro.

l) Llongyfarchodd y Cynghorydd Keith Henson Sioned Harries, sy'n chwarae rhif 8 i Dîm Rygbi Merched Cymru, gan nodi y bydd yn chwarae yn erbyn Awstralia yn ystod oriau mân dydd Sadwrn;

m) Llongyfarchodd y Cynghorydd Carl Worrall Helen Pearce o Bow Street a Pamela Worrall o Benparcau ar gael eu dewis ar gyfer y

pencampwriaethau pysgota genweirio môr rhyngwladol yn Nhiwnisia eleni;

n) Llongyfarchodd y Cynghorydd Matthew Vaux Sefydliad y Merched Cross-Inn ar ddathlu 100 mlynedd;
o) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans David Davies o Silian ar gael ei ddewis yn Llywydd y Gymdeithas Tir Glas;
p) Llongyfarchodd y Cynghorydd Hugh Hughes Ronnie Davies sydd wedi ymddeol ar ôl 30 mlynedd fel Rheolwr Bad Achub y Borth, a 56 mlynedd o wasanaeth i Fad Achub y Borth a'r RNLI;
q) Llongyfarchodd y Cynghorydd Hugh Hughes Pete Davies sydd wedi ymddeol yn dilyn 40 mlynedd o wasanaeth ar fad achub RNLI y Borth;
r) Llongyfarchodd y Cynghorydd Hugh Hughes yr Athro Alun Hubbard o'r Borth a ymddangosodd yn ddiweddar ar 'Frozen Planet 2' am y gefnogaeth barhaus hon i'r ddadl ar y newid yn yr hinsawdd;
s) Diolchodd y Cynghorydd Wyn Evans i Geraint Lloyd am ei wasanaeth i Radio Cymru, gan nodi y bydd colled ar ei ôl.

6 Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2022 a 8 Gorffennaf 2022 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2022

PENDERFYNWYD cadarnhau fel cofnod cywir Gofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2022 ac 8 Gorffennaf 2022 a Chyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2022, yn amodol ar y newidiadau a ganlyn:

a) Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor ar 8 Gorffennaf 2022 ar Faes y Pentref gan y Cynghorydd Clive Davies, nid y Cynghorydd Bryan Davies;
b) Nodi y dylai eitem z, Mater Personol ar gyfer cyfarfod y Cyngor yn dwyn dyddiad 3 Mawrth 2022 ddarllen Griff Lewis nid Gruff Lewis.

7 Apwyntio Aelodau i'r rolau canlynol:

PENDERFYNWYD cadarnhau'r enwebiadau a'r penodiadau canlynol o Aelodau:

Enwebiadau i'w hystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Y Cynghorydd Rhodri Evans Y Cynghorydd Keith Henson
Penodi Aelod ychwanegol i Bwyllgor Safonau'r Cydbwyllgor Corfforedig	Y Cynghorydd Caryl Roberts
Penodi 2 Aelod i Banel Lleol Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi	Y Cynghorydd Clive Davies Y Cynghorydd Matthew Vaux

8 Adroddiad ar Gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol ar Gyrff Llywodraethu Ysgolion a Bwrdd Rheoli UCD Ceredigion

Cyflwynodd y Cynghorwyr Wyn Thomas a Bryan Davies yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod y Cynghorydd Ann Bowen Morgan wedi'i henwebu fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Bro Pedr, a bod y Cynghorydd Wyn Thomas wedi'i enwebu fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Fwrdd Rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

PENDERFYNWYD yn unfrydol cadarnhau'r Cynghorydd Ann Bowen Morgan fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Bro Pedr, a'r Cynghorydd Wyn Thomas fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Fwrdd Rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

9 Adroddiad ar awdurdodi gweithdrefn ar gyfer penderfynu ar gais i gofrestru tir fel Maes Pentref

Cyflwynodd y Cynghorydd Clive Davies yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi y cyflwynwyd adroddiad blaenorol i'r Cyngor ar 8 Gorffennaf 2002 yn rhoi cefndir cais i Gofrestru Tir ar gyfer Maes Pentref ar gae Erw Goch yn gyfagos i Hafan y Waun, Waunfawr, Aberystwyth. Yn ystod y cyfarfod penderfynwyd gorchymyn Bargyfreithiwr i weithredu fel asesydd annibynnol. Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor heddiw yn cynnwys adroddiad cychwynnol a gynhyrchwyd gan Katherine Barnes, Bargyfreithiwr sy'n amlinellu'r ffordd o weithredu a gynigir gan yr Asesydd Annibynnol.

Nododd yr aelodau eu siom na fu dim trafodaeth nac ymdrechion i gyfryngu gydag ymgeiswyr. Nodwyd ei bod er budd trigolion a'r cyhoedd i sicrhau bod y broses gywir yn cael ei dilyn o'r cychwyn cyntaf ac i beidio â rhagfarnu penderfyniadau yn y dyfodol heb gyngor annibynnol gan Fargyfreithiwr. Eglurwyd bod rôl Ceredigion fel tirfeddiannwr a chorff gwneud penderfyniadau yn gwbl ar wahân a bod rolau Swyddogion hefyd yn cael eu gwahanu er mwyn sicrhau bod prosesau yn deg ac yn dryloyw.

Nodwyd taw mater i'r Tirfeddiannwr / cynrychiolwyr cyfreithiol fyddai ystyried trafodaethau gyda'r gymuned.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

(a) Awdurdodi'r bargyfreithiwr fel yr asesydd annibynnol i ystyried fel mater rhagarweiniol, a thrwy sylwadau ysgrifenedig (oni bai bod y bargyfreithiwr wedi hynny yn ystyried y byddai gwrandawiad neu ymchwiliad yn fwy priodol), a yw'r athrawiaeth o anghydnawsedd statudol yn atal cofrestru'r Tir yn Faes Tref neu Bentref;

(b) Awdurdodi'r bargyfreithiwr fel yr asesydd annibynnol i ysgrifennu adroddiad yn amlinellu ei hargymhelliad ynghylch a yw amddiffyniad anghydnawsedd statudol y Tirfeddiannwr yn llwyddo. Mae'r adroddiad i'w rannu â'r pleidiau, a bydd ar gael i'r cyhoedd;

(c) Os yw adroddiad y bargyfreithiwr fel yr asesydd annibynnol y cyfeirir ato yn (b) yn cynghori bod amddiffyniad yr anghydnawsedd statudol yn llwyddo, i'r graddau mai'r argymhelliad a wneir i'r Awdurdod Cofrestru yw na ddylai gofrestru'r Tir fel Maes Tref neu Bentref, y bydd y Cais bryd hynny yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod Cofrestru ar gyfer penderfyniad;

(d) Os bydd adroddiad y bargyfreithiwr fel yr asesydd annibynnol y cyfeirir ato yn (b) yn cynghori bod amddiffyniad yr anghydnawsedd statudol yn methu, bydd yn mynd ymlaen i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i archwilio'r materion sy'n weddill.

(e) Yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus, bydd y bargyfreithiwr fel yr asesydd annibynnol yn rhoi adroddiad i'r Awdurdod Cofrestru sy'n amlinellu ei dadansoddiad o'r dystiolaeth a'r argymhelliad ynghylch a ddylai'r Tir gael ei gofrestru fel Maes Tref neu Bentref. Bydd y Cais

wedyn yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod Cofrestru ar gyfer penderfyniad.

10 Adroddiad ar recriwtio person Lleyg/Annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux yr adroddiad i'r Cyngor yn nodi'r gofyniad statudol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn perthynas â'r broses recriwtio aelodau lleyg. Nodwyd bod un o'r Aelodau Lleyg / Annibynnol wedi ymddiswyddo a bod angen penodi un aelod yn ei le. Nodwyd bod angen i'r Cyngor gymeradwyo aelodaeth o Banel Dethol Rhoi ar Restr Fer ac argymhellodd fod y Panel yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor neu Is-gadeirydd y Cyngor; Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yr Is-gadeirydd neu aelod annibynnol arall o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n Gynghorydd ac aelod lleyg annibynnol o'r gymuned, i'w enwebu gan y Swyddog Monitro.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro, Elin Prysor fod yr Athro John Williams, ers cyflwyno'r adroddiad, wedi cytuno i fod yn gynrychiolydd allanol o'r Panel.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. cymeradwyo cychwyn y broses recriwtio ar gyfer un aelod annibynnol / aelod lleyg (newydd) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio,
2. cymeradwyo'r cynigion ar gyfer y Panel Dethol Rhoi ar Restr Fer,
3. cymeradwyo'r Disgrifiad o'r Rôl a Manyleb y Person (Atodiad A),
4. nodi'r angen i benodi Is-gadeirydd newydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

11 Adroddiad ar recriwtio Aelod Lleyg/Annibynnol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux adroddiad i'r Cyngor yn nodi y bydd cyfnod y Cadeirydd presennol yn y swydd, Mrs Caroline White yn dod i ben ar 29 Gorffennaf 2023 a'i bod bellach yn angenrheidiol recriwtio aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel yr amlinellir yn Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo:

1) y disgrifiad o'r rôl, manyleb y person a'r meini prawf (fel yr amlinellir yn Atodiad 1)
2) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:
   - Cadeirydd y Cyngor (Is-gadeirydd yn ei absenoldeb);
   - Aelod Annibynnol/Lleyg o'r Panel (wedi'i enwebu gan y Swyddog Monitro)
   - Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu aelodau annibynnol eraill a enwebir gan y Swyddog Monitro yn ôl yr angen)
   - Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned wedi'i enwebu gan Un Llais Cymru.

12 Adroddiad ar Ganllaw'r Cyfansoddiad a newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux yr adroddiad i'r Cyngor, gan nodi bod y Canllaw i'r Cyfansoddiad a'r diwygiadau arfaethedig wedi'u hystyried gan Weithgor y Cyfansoddiad yn ei gyfarfodydd yn dwyn dyddiad Medi 12fed 2022.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo'r Canllaw i'r Cyfansoddiad fel y'i diwygiwyd (yn Atodiad 1);
2. Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad (yn Atodiadau 2-11); a
3. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiweddaru Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau uchod.

13 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Cyflwynodd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd presennol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ar ran Ceredig Davies, Cadeirydd y Pwyllgor am y 5 mlynedd blaenorol. Nododd ei bod wedi siarad â Ceredig Davies a'i fod wedi mynegi ei ddiolch i Dîm y Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Elizabeth Evans at waith y pwyllgor, a thynnodd sylw at y cylch gorchwyl, gan ofyn i Aelodau gyflwyno unrhyw eitemau y dymunant eu trafod i'r Pwyllgor eu hystyried.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Cyngor.

14 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi nad oedd Cadeirydd y Pwyllgor yn gallu bod yn bresennol oherwydd bod y cyfarfod blaenorol wedi'i ganslo yn ystod y cyfnod o alaru am y Frenhines Elizabeth II.

Nodwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn mynnu bod adran ychwanegol yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad sy'n ymwneud â rôl Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol. Nid yw hyn yn berthnasol i'r adroddiad hwn; fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn gweithio tuag at y gofyniad hwn ar gyfer adroddiad 2022-23.

Nododd y Swyddog Monitro, Elin Prysor fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo 16 cais am ollyngiad ac wedi gwrthod 1. O'r rheini, cyflwynwyd 8 gan Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion a 9 gan Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned. Yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor hefyd wedi bod yn ymwneud â datblygu Gweithdrefnau Gwrandawiadau a recriwtio.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Cyngor.

15 Adroddiad ar benodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro ar gyfer Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies yr adroddiad i'r Cyngor ac fe wnaeth gydnabod cyfraniad Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd a dymuna'n dda iddi ar ei hymddeoliad.

Nodwyd oherwydd y gofyniad statudol i benodi Gweithiwr Cymdeithasol cymwys a phrofiadol i'r rôl hon, bod bwriad i benodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal dros dro am 6 mis drwy asiantaeth recriwtio wedi'i dderbyn gan Arweinydd y Cyngor ynghyd â dau Arweinydd Grwpiau'r Gwrthbleidiau.

Ar 3 Hydref 2022 bu Panel o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Bryan Davies yn cyfweld â Ms Audrey Somerton-Edwards a phenderfynodd gyflogi ei gwasanaethau am gyfnod o 6 mis tra bod ymarfer recriwtio helaeth yn cael ei gynnal.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Cyngor.

16 Atodiad B sy'n berthnasol i'r adroddiad uchod (EITHRIEDIG)
Penderfynwyd peidio â chau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r cyfarfod gan na thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 24 Tachwedd 2022

CADEIRYDD: _____